Dyfarniad gan Weinidogion Cymru o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983

1. Mae ALl1 ac ALl2 wedi gwneud atgyfeiriad at Weinidogion Cymru i gael dyfarniad ynghylch preswylfa arferol X. Er bod adran 40 o Ddeddf Gofal 2014 yn cael ei henwi gan yr awdurdodau atgyfeirio fel y pŵer perthnasol, mae ffeithiau'r achos yn dangos mai achos sydd i'w benderfynu o dan adran 117(4)(c) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yw hwn.

Y Ffeithiau y Cytunwyd Arnynt

2. Mae ALl1 ac ALl2 yn cytuno ar y ffeithiau canlynol ac maent yn cael eu hategu gan gynnwys y bwndeli o ddogfennau a ddarparwyd gan y ddau awdurdod lleol.

3. Mae gan X ddiagnosis o arafwch meddyliol ysgafn, anhwylder ar y sbectrwm awtistig ac epilepsi. Mae ei rieni yn byw yn ardal ALl1 ond mae X wedi byw mewn cartrefi gofal neu ysbytai mewn gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol ers Awst 2012.

4. Mae'r gronoleg berthnasol fel a ganlyn:

5. Ym mis Awst 2005, daeth X yn hysbys i adran gwasanaethau oedolion ALl1 ar ôl dychwelyd i fyw gyda'i rieni yn ardal ALl1. Rhywbryd yn 2007, symudodd X i gyfeiriad yn ardal ALl1 lle'r oedd ganddo denantiaeth o dan ei enw ei hun.

6. Ym mis Ebrill 2011, cafodd X ei dderbyn i ysbyty mewn ardal gyfagos (ALl3) yn dilyn digwyddiad lle y taflodd eitem drom o waith coed at weithiwr cymorth. Dychwelodd wedyn i'w eiddo tenantiaeth yn ardal ALl1 gyda chymorth personol o 20 awr yr wythnos.

7. Ar 6 Awst 2012, rhoddwyd X mewn gofal seibiant brys yn ardal ALl4 yn ddarostyngedig i Orchymyn Gwarcheidiaeth a wnaed o dan adran 7 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd hyn yn dilyn cwblhau asesiad o dan yr un ddeddf.

8. Ar 6 Mehefin 2013, daeth Gwarcheidiaeth X i ben, ac fe gafodd ei dderbyn dros dro i'w asesu o dan adran 2 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl i uned yn ardal ALl4 cyn symud i ysbyty yn ardal ALl2 (“Ysbyty ALl2”)

9. Ar 1 Gorffennaf 2013, estynnwyd cadwad X yn Ysbyty ALl2 o dan adran 3 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

10. Ar 9 Gorffennaf 2014, rhyddhawyd X o Ysbyty ALl2. Cafodd ei roi yng nghartref gofal A yn ardal ALl5 ar gyfer ôl-ofal o dan adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

11. Ar 28 Ionawr 2015, symudodd X i gartref gofal B yn ardal ALl5. Roedd yn dal i gael ôl-ofal o dan adran 117.

12. Ar 1 Ebrill 2015, daeth Deddf Gofal 2014 ("y Ddeddf Gofal") i rym gan wneud newidiadau sylweddol i'r gyfraith mewn perthynas â chymorth i oedolion mewn angen yn Lloegr a chan ddiwygio adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl fel y mae'n gymwys yng Nghymru a Lloegr.

13. Ar 2 Gorffennaf 2015, cafodd X ei dderbyn yn ffurfiol o dan adran 2 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl i Ysbyty ALl2. Cafodd ei gadw yno wedyn o dan adran 3 ar 24 Gorffennaf 2015.

14. Ar 6 Ebrill 2016, daeth y mwyafrif o ddarpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym, gan ddiwygio'r drefn ar gyfer cymorth i oedolion yng Nghymru.

15. Ar 23 Mai 2016, symudodd X o Ysbyty ALl2 i gartref gofal yn ardal ALl6 ("Cartref Gofal ALl6") o dan drefniant absenoldeb estynedig adran 17 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd X i fod wedi cael ei drosglwyddo i Orchymyn Gwarcheidiaeth ar 23 Gorffennaf 2016 ond ni chafodd ALl1 y gwaith papur perthnasol, gan arwain at yr angen am ailasesiad.

16. Ar 10 Awst 2016, trosglwyddwyd X o statws adran 3 i Orchymyn Gwarcheidiaeth gydag ALl1 yn Warcheidwad arno. Roedd X yn ofidus oherwydd cyfarfod asesu'r Warcheidiaeth ac fe wnaeth gynhyrfu'n gorfforol gan arwain at gael ei ffrwyno. Bryd hynny, cytunwyd bod preswylfa arferol X yn ardal ALl5 gan ei fod wedi bod yn preswylio yn ardal ALl5 cyn cael ei gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

17. Ar 17 Awst 2016, gwnaeth X gynhyrfu yn dilyn taith allan gyda'i dad. Yn ystod y diwrnod wedi hynny, achosodd ddifrod i gegin Cartref Gofal ALl6 ac fe gafodd ei arestio a'i gadw gan yr heddlu dros nos.

18. Ar 6 Medi 2016, dychwelodd X i Ysbyty ALl2 ar sail anffurfiol. Cafodd ei roi i ddechrau o dan oruchwyliaeth 1:1 am 24 awr. Mae ei nodiadau yn cofnodi "…*if he behaves abnormally aggressive and seriously irresponsible behaviour nursing and doctors holding power will be implemented with a view to facilitate assessment under MHA if appropriate*".

19. Mewn cyfarfod Dull Rhaglen Ofal ar 4 Tachwedd 2016, cytunwyd na fyddai X yn gallu dychwelyd i Gartref Gofal ALl6.

20. Ar 27 Tachwedd 2016, achoswyd trallod i X wrth iddo basio drwy ALl7 ar ddiwrnod allan ac fe gafodd ei gadw mewn ysbyty yn yr ardal yn sgil cymhwyso pwerau man diogel yr heddlu o dan adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

21. Cafodd X ei aildderbyn i Ysbyty ALl2 o dan adran 2 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl i'w asesu ar 28 Tachwedd 2016.

22. Ar 23 Rhagfyr 2016, cafodd X ei asesu a'i gadw i gael triniaeth o dan adran 3 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Cynhaliwyd yr asesiad ar gyfarwyddyd ALl5 yng ngoleuni cytundeb cynharach ynghylch ei breswylfa arferol ond nid yw ALl5 yn barti i'r cais hwn am benderfyniad ac nid yw ALl51 na ALl2 yn dadlau mai ALl5 yw'r awdurdod lleol ar gyfer anghenion X yn y dyfodol.

23. Ar 1 Medi 2017, Cafodd X ei osod yn Ysbyty ALl2 gan lys i wrth arfer ei bŵer o dan adran 37 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae'n dal i fod yn Ysbyty ALl2 adeg y penderfyniad hwn.

24. Ar 8 Gorffennaf 2018, cynhaliodd ALl1 asesiad o alluedd meddyliol X. Aseswyd bod ganddo alluedd i wneud penderfyniadau ynghylch ble mae'n byw ar ôl cael ei ryddhau. Mae ALl2 yn haeru bod X wedi cyfleu ei ddymuniad i ddychwelyd i ardal ALl1 i fod yn agos at ei deulu.

Y mater sy'n destun anghydfod

25. Mae ALl1 yn dadlau, yn union cyn cadwad X o dan adran 2 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ar 28 Tachwedd 2016, ei fod wedi caffael preswylfa arferol yn ardal ALl2 ac y dylai ALl2, felly, fod yn gyfrifol am ôl-ofal X yn unol ag adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r ysbyty.

26. Y mater y gwahoddir Gweinidogion Cymru i ddyfarnu arno yw *ble yr ystyrid bod X yn preswylio fel arfer ar ddyddiad ei dderbyn yn anffurfiol i'r [Ysbyty ALl2] ar 6 Medi 2016 a phan gafodd ei gadw wedi hynny o dan Adran 3 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ar 23 Rhagfyr 2016.*. Bydd yr ateb i'r cwestiwn hwn yn pennu pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am dalu cost ei ôl-ofal ar ôl iddo gael ei ryddhau (yn ogystal ag anghenion cymwys eraill o dan y Ddeddf Gofal neu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant).

Cyfraith a Chanllawiau Perthnasol

27. Mae adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1984 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol (yn ogystal â'r Grŵp Comisiynu Clinigol lleol yn

Lloegr neu'r Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru) i sicrhau bod unigolion sy'n gadael cadwad iechyd meddwl gorfodol yn cael ôl-ofal.

28. Mae achos X yn pontio newid yn y gyfraith a achoswyd gan ddyfodiad i rym y Ddeddf Gofal yn Lloegr a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yng Nghymru.

29. Mae adran 117(4)(c) o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn rhoi hawl i Weinidogion Cymru wneud dyfarniadau pan fo anghydfodau ynghylch preswylfa arferol yn codi rhwng awdurdod lleol yn Lloegr ac awdurdod lleol yng Nghymru.

Yr hen gyfraith

30. Cyn i'r Ddeddf Gofal ddod i rym ar 1 Ebrill 2015, roedd adran 117(3) o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn darparu mai'r awdurdod lleol (a'r awdurdod iechyd) â chyfrifoldeb dros ôl-ofal oedd y rhai ar gyfer yr ardal lle'r oedd yr unigolyn dan sylw yn preswylio ynddi yn union cyn cael ei gadw. Os nad oedd gan yr unigolyn fan preswylio, yna cyfrifoldeb yr awdurdodau oedd yr ardal yr oedd yr unigolyn yn cael ei anfon iddi ar ôl cael ei ryddhau.

31. Ar wahân i'r cyfrifoldeb ôl-ofal, roedd gan yr awdurdodau lleol ddyletswyddau i ddarparu llety a chymorth i oedolion penodol o dan Ran 3 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ("Deddf 1948"). Roedd adran 24(5) o Ddeddf 1948 yn darparu y dylid tybio bod y rhai a oedd yn cael eu lletya o dan Ran 3 yn preswylio'n arferol yn yr ardal yr oeddent yn preswylio'n arferol ynddi cyn i'r llety gael ei ddarparu iddynt.

32. Mae ystyr "preswylfa" a " preswylfa arferol" a'r berthynas rhwng eu defnydd yn Neddf 1948 a'r Ddeddf Iechyd Meddwl wedi bod yn destun ystyriaeth o fewn corff sylweddol o gyfraith achosion.

33. Sefydlwyd nad oedd y "ddarpariaeth dybio" o dan adran 24(5) o Ddeddf 1948 yn gymwys i benderfyniadau adran 117. Fel y mae ALl1 yn nodi yn ei gyflwyniadau, ar 19 Ebrill 2010, diwygiwyd Canllawiau Preswylio Arferol yr Adran Iechyd er mwyn darparu, ym mharagraff 184:

"*The term "resident" in the 1983 Act is not the same as "ordinarily resident" in the 1948 Act and therefore the deeming provisions (and other rules about ordinary residence explained in this guidance) do not apply".*

34. Cadarnhawyd y dehongliad hwn yn y penderfyniad yn R (on the application of Hertfordshire County Council) v London Borough of Hammersmith and Fulham [2011] EWCA Civ77. Dyfarnodd y llys fod cyfrifoldeb dros ôl-ofal yn nwylo'r awdurdod lleol

yr oedd y person yn “preswylio ynddo” cyn cael ei gadw'n orfodol, h.y. nid oedd y ddarpariaeth dybio o dan adran 24(5) o Ddeddf 1948 yn gymwys at ddibenion adran 117. Cofnododd y llys:

“*It was not easy to see why Parliament did not simply follow the precedent of the 1948 Act when enacting the duty under s 117 of the 1983 Act. However, Parliament deliberately chose a different formula and accepted the possibility of responsibility changing over the period of detention, including the potential impact on continuity of patient care. Furthermore, s 117 was intended to be a free-standing provision, not dependant on the 1948 Act. To grant the claimant's proposed form of declaration would have been to rewrite the language of the statute to the form that Parliament could have adopted, but did not*”.

35. Cafodd y cynnig nad oedd bwriad i 'ddarpariaethau tybio' Deddf 1948 gael eu trosi i adran 117(3) o Ddeddf 1983 ei ailddatgan gan achos diweddar y Goruchaf Lys sef R (on the application of Worcestershire County Council) v Secretary of State for Health and Social Care [2023] UKSC 31 (“achos y Goruchaf Lys”). Yn y dyfarniad a roddwyd ar 10 Awst 2023, darparodd yr Arglwydd Hamblen a'r Arglwydd Leggatt (y cytunodd yr Arglwydd Reed, yr Arglwydd Burrows a'r Arglwydd Richards â hwy):

“*We do not accept that section 117(3) of the 1983 Act is functionally equivalent to the deeming or disregarding provisions in the other statutes. Unlike those provisions, section 117(3) does not manifest any intention that the term “ordinarily resident” should be given anything other than its usual meaning. Section 117(3) does not state or imply that providing residential accommodation for an individual in the area of another local authority will not, or is not to be taken to, change the individual’s place of ordinary residence. All it does is to specify the time at which the person’s ordinary residence is to be determined for the purpose of allocating responsibility to provide and pay for their care. This carries no implication that, at the point in time at which the person’s ordinary residence is required to be determined for the purpose of section 117, any special rule or test of ordinary residence different from the normal test should be applied”.*

36. Yr achos arweiniol mewn perthynas â dehongli'r term “ preswylfa arferol” (“ordinary residence”) yw R v Barnet London Borough Council, Ex p Nilish Shah [1983] 2 AC 309 (y cyfeirir ato fel arfer fel “achos Shah”) lle y dywedodd yr Arglwydd Scarman:

“*Unless, therefore, it can be shown that the statutory framework or the legal context in which the words are used requires a different meaning, I unhesitatingly subscribe*

*to the view that "ordinarily resident" refers to a man's abode in a particular place or country which he has adopted voluntarily and for settled purposes as part of the regular order of his life for the time being, whether of short or long duration*".

37. Ailddatganwyd y dehongliad o'r term "preswylfa arferol", a'r prawf a sefydlwyd gan yr Arglwydd Scarman, gan achos Shah yn ddiweddar, lle y gwnaeth y dyfarniad yn glir y dylai'r term "preswylfa arferol" yng nghyd-destun adran 117 o Ddeddf 1983 ddwyn ei ystyr arferol,

38. Gwnaeth achos y Goruchaf Lys hefyd yn glir y bydd dyletswydd adran 117 i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal yn dod i ben os bydd y person sy'n cael y gwasanaethau hynny yn cael ei gadw yn orfodol yn yr ysbyty am driniaeth (o dan y darpariaethau perthnasol a bennir yn adran 117(1) o Ddeddf 1983) neu os caiff penderfyniad ei wneud gan yr awdurdodau perthnasol nad oes ar yr unigolyn angen gwasanaethau ôl-ofal mwyach. Mae'r dyfarniad yn darparu *"…on the best interpretation of section 117 of the 1983 Act, the duty under section 117(2) to provide after-care services automatically ceases if and when the person concerned is detained under section 3 (or another provision specified in section 117(1))"* (Para 54).

39. Mae ALl1 yn cyfeirio yn ei gyflwyniadau at benderfyniad yn R (on the application of Sunderland City Council) v South Townsend Council [2012] EWCA Civ1232. Mae achos Sunderland yn awdurdod ar gyfer y cynnig y byddid yn barnu bod unigolyn sy'n cael ei dderbyn i'r ysbyty ar gyfer triniaeth salwch meddwl neu ar sail anffurfiol, os byddai ei fan preswylio blaenorol ar gael, at ddibenion adran 117, yn preswylio yn yr ysbyty neu ddim yn preswylio yn unrhyw le. Roedd bod heb breswylfa yn unrhyw le yn sefyllfa ddiofyn yn y pen draw na ddylid barnu ei bod yn gymwys "*except in extreme and clear circumstances*".

40. Yn Mohamed v Hammersmith Fulham LBC [2001] UKHL 57, roedd yr Arglwydd Slynn yn haeru bod preswylfa at ddibenion adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, yn dynodi man lle'r oedd person yn byw mewn gwirionedd a: "*So long as that place where he eats and sleeps is voluntary accepted by him, the reason why he is there rather than somewhere else does not prevent that place from being his normal residence*" (para 18).

41. Yn achos R (on the application of Worcestershire County Council) v Essex County Council [2014] EWHC 557 (admin) ("Achos Swydd Gaerwrangon") cadarnhawyd bod eithrio cyfnodau cadwad o dan adran 3 hefyd yn ymestyn i unrhyw gyfnodau asesu

cynharach o dan adran 2. Cofnododd Ei Anrhydedd y Barnwr David Cooke ym mharagraff 14:

*This reasoning in my view extends to a period of detention for assessment under s2 MHA which precedes and leads to subsequent detention under s3. Although s 117 refers to persons "who are detained under section 3 above" and then released, if there has been an immediately preceding detention under s2 for assessment that is part of the process of initiating the detention under s3, and if the intention of Parliament was to exclude the place of detention under s3 it would make no sense to include the place (likely to be the same) of prior detention for assessment.*

42. Gwrthododd ei Anrhydedd y Barnwr Cooke yn benodol eithrio unrhyw gyfnod cyn cadwad o dan adran 2 hyd yn oed os gallai'r cyfnod cynharach hwnnw, ar sail ffeithiau Achos Swydd Gaerwrangon, fod wedi bod yn amddifadiad anawdurdodedig o ryddid.

43. Ystyriodd ei Anrhydedd y Barnwr Cooke y sylwadau yn achos Shah ymhlith eraill ynghylch ystyr “ preswylfa” mewn gwahanol gyd-destunau cyfreithiol. Wedi gwneud hynny, daeth i'r casgliad ym mharagraff 22:

*“…if a person has a home in one place, he may not cease to reside there if he is away from it either involuntarily, eg because of imprisonment, or voluntarily but temporarily, eg for a holiday or because of admission to hospital, at least for a relatively short period. If he has no other residence, his voluntary coming to live in a place makes that his residence even if he would have better if possible to be elsewhere, or has no choice but to accept it, or it is not a place in which someone would usually reside".*

44. Ym mharagraff 27, cofnododd Ei Anrhydedd y Barnwr Cooke:

*The context and purpose of s117 point in my judgment to an interpretation that is as straightforward as possible, the residence of a person being prima facie the place in which he was in fact living eating and sleeping immediately prior to his detention. There may be reasons to conclude that he has not lost an established residence elsewhere, for example because of imprisonment or because he is only temporarily away from that residence on holiday, but if he has no such other place, and in the absence of some other special factor, his actual place of abode is his residence.*

45. Penderfynwyd ar Achos Caerwrangon (a'r holl awdurdodau y mae ei benderfyniad yn eu dwylo) cyn i Ddeddf 2014 ddod i rym. Nododd ei Anrhydedd y Barnwr Cooke, ym mharagraff 32 o'i ddyfarniad:

"*I am told that the matters in issue in this case will not arise in future, because s117 has been amended by the Care Act 2014 to provide for a regime of long term responsibility of an authority, rather than one which may shift as a patient moves around the country. That is no doubt sensible in terms of policy, but as was recognised by the Court of Appeal it is not a result achievable by legitimate interpretation of the earlier statute*".

<u>Y gyfraith bresennol</u>

46. Nid yw'r newid yn y gyfraith a ragwelwyd gan Ei Anrhydedd y Barnwr Cooke wedi digwydd mewn gwirionedd.

47. O 1 Ebrill 2015, diwygiodd y Ddeddf Gofal (yn rhinwedd adran 75) adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl i nodi mai'r awdurdod lleol a'r awdurdod iechyd cyfrifol oedd y rhai yr oedd y claf yn <u>preswylio fel arfer</u> yn eu hardal yn union cyn cael ei gadw. Os nad oes gan y claf breswylfa arferol o'r fath, y cyrff perthnasol yw'r rhai yr oedd yn <u>preswylio</u> yn eu hardal yn union cyn cael ei gadw. Os nad oedd gan y claf breswylfa o'r fath, mae'r cyfrifoldeb yn troi yn ddiofyn i'r ardal y mae'r claf yn cael ei anfon iddi adeg ei ryddhau.

48. Mae'r Ddeddf Gofal a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol, ac effaith y rheini yw cario drosodd man preswylio arferol unigolyn <u>at ddibenion Deddf 1948</u> i'r ddeddfwriaeth newydd. Nid yw'r darpariaethau trosiannol fel arall yn mynd i'r afael â materion sy'n berthnasol i benderfyniadau adran 117.

49. Mae erthygl 6(1) o Orchymyn Deddf Gofal 2014 (Darpariaeth Drosiannol) 2015 yn darparu:

*(1) Any person who, immediately before the relevant date in relation to that person, is deemed to be ordinarily resident in a local authority's area by virtue of section 24(5) or (6) of the 1948 Act (authority liable for provision of accommodation) is, on that date, to be treated as ordinarily resident in that area for the purposes of Part 1 of the Act.*

50. Mae'r ddarpariaeth ddrychweddu yng nghyfraith Cymru o fewn Gorchymyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 3, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) 2016 yn Atodlen 1, paragraff 6.

51. Mae'r Ddeddf Gofal a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant hefyd yn cynnwys darpariaethau tybio sy'n debyg o ran eu heffaith i adran 24(5) o Ddeddf 1948, h.y. maent yn tybio bod unigolyn yn dal i breswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol os caiff ei symud allan o'r ardal. Mae'r darpariaethau hyn wedi'u cynnwys yn adran 39(1) o'r Ddeddf Gofal ac adran 194 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn y drefn honno. Maent yn gweithredu (ynghyd â rheoliadau ategol) er mwyn eithrio lleoliadau mewn cartrefi gofal, trefniadau cysylltu bywydau a llety byw â chymorth rhag cael eu hystyried pan wneir penderfyniadau ynghylch preswylfa arferol unigolyn at ddibenion ei anghenion gofal a chymorth.

52. Effaith geiriad diwygiedig adran 117(3), er hynny, yw ymestyn y darpariaethau tybio newydd hyn i ôl-ofal.

53. Mae Canllawiau'r Ddeddf Gofal Statudol yn dweud ym mharagraff 19.67:

*There are several provisions in the Care Act (section 39(1)-(3) and (5)-(7) and paragraph 2 of Schedule 1) which deem a person to be ordinarily resident in a particular local authority's area in specified circumstances for the purposes of Part 1 of the Act. These deeming provisions do not apply to section 117 of the 1983 Act, nor have they been incorporated into section 117 of the 1983 Act.*

54. Felly, mae'r cyfrifoldeb dros ôl-ofal yn nwylo'r awdurdod ar gyfer yr ardal lle'r oedd yr unigolyn o dan sylw yn preswylio fel arfer (neu os nad oedd preswylfa arferol, lle'r oedd yn preswylio) heb gymhwyso unrhyw ddarpariaethau tybio mewn perthynas â lleoliadau cartrefi gofal.

55. Mae'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ôl-ofal yn dod, o dan y gyfraith bresennol, yn awdurdod sy'n gyfrifol am unrhyw ofal a chymorth arall y mae'r unigolyn yn gymwys i'w cael. Mae adran 39(4) o'r Ddeddf Gofal yn darparu:

*(4) An adult who is being provided with accommodation under section 117 of the Mental Health Act 1983 (after-care) is to be treated for the purposes of this Part as ordinarily resident in the area of the local authority in England or the local authority in Wales on which the duty to provide the adult with services under that section is imposed; and for that purpose—*

*(a) "local authority in England" means a local authority for the purposes of this Part, and*

*(b) "local authority in Wales" means a local authority for the purposes of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.*

56. Mae darpariaeth ddrychweddu wedi'i chynnwys yn adran 194(4A) o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sy'n darparu:

*(4A) Mae person y mae llety'n cael ei ddarparu iddo o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal) i'w drin at ddibenion y Ddeddf hon fel un sy'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol, neu'r awdurdod lleol yn Lloegr, y mae'r ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau i'r person hwnnw o dan yr adran honno wedi ei gosod arno.*

57. Mewn geiriau eraill, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ôl-ofal sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldebau gofal a chymorth ehangach; nid yr awdurdod lleol a oedd yn gyfrifol am ofal a chymorth cyn cadwad yr unigolyn yw'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ôl-ofal, o reidrwydd.

<u>Cyflwyniadau'r awdurdodau</u>

58. Mae ALl1 yn haeru bod X wedi peidio â bod yn preswylio'n arferol yn ei ardal ar 12 Mehefin 2013 pan gafodd ei gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a'i dderbyn i Ysbyty ALl2 am y tro cyntaf. Mae'n honni bod preswylfa arferol X wedi newid sawl gwaith dros y cyfnod rhwng 2013 a 2016 ond ei fod yn preswylio'n arferol ar hyn o bryd yn ardal ALl2.

59. Mae ALl1 yn honni bod X wedi caffael preswylfa arferol yn ardal ALl2 pan ddychwelodd i Ysbyty ALl2 ar sail anffurfiol ar 6 Medi 2016. Mae'n honni bod X a) yn byw, yn bwyta ac yn cysgu yn Ysbyty ALl2, b) nad oedd yn gallu dychwelyd i'w leoliad blaenorol (Cartref Gofal ALl6) ac c) nad oedd ganddo unrhyw fan preswylio arall. Mae ALl1 yn dadlau, yng ngoleuni'r ffactorau hynny, fod gan breswylfa X yn ardal ALl2 lefel ddigonol o barhad i gael ei ddisgrifio yn "sefydlog" at ddibenion caffael preswylfa arferol.

60. Mae ALl2 yn haeru nad oedd X wedi caffael preswylfa arferol yn ei ardal ar 6 Medi 2016 o ganlyniad i'w dderbyn yn anffurfiol i Ysbyty ALl2. Mae'n honni nad oedd arhosiad X yn ei ardal yn bodloni'r prawf "diben sefydlog" a nodir yn y penderfyniad yn achos Shah gan nad oedd X yn bresennol yn Ysbyty ALl2 i gael triniaeth ar gyfer ei anhwylder meddwl. Mae ALl2 yn dadlau, pe bai X wedi gwrthwynebu byw yn Ysbyty

ALl2, y byddai wedi cael ei gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac mae'n tynnu sylw at y ffaith ei fod wedi'i gadw felly ar 28 Tachwedd 2016.

61. Mae ALl2 yn dadlau bod ei safbwynt yn cael ei ategu gan rifyn Awst 2018 o ganllawiau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol ar benderfynu ar gyfrifoldeb yr awdurdodau lleol o dan y Ddeddf Gofal ac mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn ei ddarparu. Mae'r canllawiau hynny'n dweud ar dudalen 37:

*"Where someone goes into hospital on a voluntary basis, they do not lose their previous residence. However, if during voluntary admission the individual loses their previous accommodation, they no longer continue to be resident in the area. In such a case, if their presence at hospital is sufficiently settled they may acquire residence in hospital …*

*If the presence in hospital is not sufficiently settled (in accordance with the "settled purpose" test in Shah) to amount to residence, they will be of no settled residence and the local authority responsible for aftercare will be of the area to which the individual is sent on discharge…*

*Individuals becoming resident at hospital for determining aftercare responsibility should happen only rarely".*

62. Dywed ALl2, yn unol â'r canllawiau hynny, i X ddechrau dod yn berson heb breswylfa sefydlog pan nad oedd yn gallu dychwelyd i Gartref Gofal ALl6. Mae'n dadlau, ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r Ysbyty ALl2, mai'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ei ôl-ofal fydd yr ardal y mae'n symud iddi. Gan fod X wedi datgan ei fod yn dymuno byw yn agos at ei deulu a dychwelyd i ardal ALl1, mae ALl2 yn dadlau mai cyfrifoldeb ALl1 fydd y gwasanaethau ôl-ofal.

63. Mae ALl2 hefyd yn dadlau (ym mharagraff 4 o'i ddogfen gyflwyno) fod X yn preswylio fel arfer yn ardal ALl1 adeg ei gadw o dan adran 3 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn rhinwedd adran 39(1) o Ddeddf 2014 a'r rheoliadau ategol. Mae'n dadlau bod X wedi bod yn preswylio'n arferol yn ardal ALl1 ers 2012.

<u>Y Penderfyniad</u>

64. Mae adran 117 fel y'i diwygiwyd yn gosod y cyfrifoldeb dros ôl-ofal ar yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle'r oedd X yn preswylio yn arferol (neu os nad oedd ganddo fan preswylio arferol, ei fan preswylio) cyn iddo gael ei gadw o dan adran 3 ac adran 37.

Mae'r penderfyniad yn achos Swydd Gaerwrangon yn awdurdod ar gyfer y cynnig y dylid trin cyfnodau asesiad adran 2 fel rhan o unrhyw gadwad adran 3 dilynol.

65. Yn achos X, y cyfnod perthnasol ar gyfer penderfynu ar ei breswylfa arferol felly yw'r cyfnod cyn iddo gael ei gadw i'w asesu ar 28 Tachwedd 2016.

66. Mae'r cofnod o Gyfarfod Adolygiad Clinigol a gynhaliwyd ar 19 Awst 2016 yn cynnwys y canlynol:

*“Discussion on long-term management was discussed, it was noted that one option would be [X] being admitted informally to [the LA2 Hospital] however it was noted that at present there was no bed … It was felt that [X] may continue to escalate as he has decided that he does not wish to be at [the LA6 Care Home] anymore”.*

67. Mae'n ymddangos felly fod X eisoes yn dangos awydd i ymadael â Chartref Gofal ALl6 ar 19 Awst 2016.

68. Rhwng 6 Medi a 27 Tachwedd 2016, roedd X yn byw, yn bwyta ac yn cysgu yn Ysbyty ALl2 fel claf anffurfiol. Nid oes unrhyw gofnod yn y papurau i awgrymu bod X yn gwrthwynebu bod yn Ysbyty ALl2. Roedd eisoes wedi treulio 11 mis o'i fywyd yno rhwng mis Gorffennaf 2015 a mis Mai 2016. Mae Adroddiad Tîm Amlddisgyblaethol dyddiedig 9 Medi 2016 yn cofnodi:

*“[X] was charged with criminal damage following an incident at [the LA6 Care Home] and agreed to come as an informal patient to [the LA2 Hospital]…”*

69. Cafodd ei roi o dan fesur uchel neu oruchwyliaeth i ddechrau ond mae'r un adroddiad gan y Tîm Amlddisgyblaethol yn cofnodi yn ddiweddarach:

*“Since [X] has returned to [the LA2 Hospital] on the 9/6/16 he has appeared settled in mood… Since being at [the LA2 Hospital] [X] has not expressed a desire to leave”.*

*“[X] needs a period in which he feels ‘contained’ in order to feel more settled.”*

*“[X] was asked why he wanted to return to [the LA2 Hospital], he stated that he wanted to get away and felt safe here”.*

70. Mewn cofnod o gyfarfod adolygu CPA dyddiedig 4 Tachwedd 2016, nodir bod X wedi siarad am “*wishing to remain at [the LA2 Hospital] if he can (he joked about becoming a staff member)”.*

71. Mae'r papurau cydamserol yn dangos bod X yn cael mynediad at y gymuned yn ystod y cyfnod hwn ac yn dewis dychwelyd i Ysbyty ALl2 ar bob achlysur.

72. Er bod cynllun wrth gefn ar gyfer derbyn X yn ffurfiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, nid oedd unrhyw gynllun y dylai symud i unrhyw leoliad arall. Cafodd ei lety dros dro yn y “byngalo canol gwaelod” yng Nghartref Gofal ALl6 ei ystyried ond ni farnwyd ei fod yn briodol yn y pen draw. Trafodwyd y nod o symud X i leoliad yn agosach at ei rieni gydag ef, ond nid fel cynlluniau tymor byr cyfyngedig.

73. Ar 4 Tachwedd 2016, cadarnhawyd yn ffurfiol na fyddai X yn gallu dychwelyd i Gartref Gofal ALl6 ond, yng ngoleuni'r cofnodion a nodir uchod, ymddengys fod dychwelyd i Gartref Gofal ALl6 wedi bod yn annhebygol iawn o'r cychwyn cyntaf.

74. Er mai cymharol fyr oedd ei arhosiad yn Ysbyty ALl2 cyn iddo gael ei roi o dan drefniant cadw ffurfiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, mae'r gyfraith achosion a'r canllawiau yn rhag-weld sefyllfaoedd lle y gallai arosiadau byrrach arwain at newid preswylfa arferol.

75. Penderfynir bod X wedi bod yn preswylio’n arferol yn Ysbyty ALl2 yn ystod y cyfnod rhwng 6 Medi a 27 Tachwedd 2016. Roedd yn bresennol yno yn gorfforol drwy gydol y cyfnod hwnnw. Mae tystiolaeth sylweddol i ddangos ei fod yn mynegi dymuniad i aros yno. Nid oedd yn dymuno byw yng Nghartref Gofal ALl6 ac o 4 Tachwedd 2016 fan bellaf nid oedd y llety hwnnw ar gael iddo. Nid oedd unrhyw lety arall yn cael ei ystyried yn opsiwn i X yn y tymor byr. Ni ellid dweud, felly, fod ei bresenoldeb yn Ysbyty ALl2 yn drefniant hwylus dros dro. Gan gymhwyso'r dull syml y mae'r gyfraith achosion yn annog gwneuthurwyr penderfyniadau i'w gymhwyso, yr unig gasgliad rhesymol yw bod X wedi dechrau preswylio’n arferol yn Ysbyty ALl2 erbyn 27 Tachwedd 2016.

76. Pe na bai'n preswylio’n arferol erbyn hynny, byddai yn breswylydd beth bynnag yn Ysbyty ALl2. Nid yw hwn yn achos lle mae rheswm clir a chymhellol dros ddod i'r casgliad nad oedd ganddo breswylfa.

77. ALl2 felly yw'r awdurdod sydd â chyfrifoldeb dros ôl-ofal X.

78. O gofio mai ALl2 yw'r awdurdod sy'n gyfrifol am ôl-ofal X, mae'n dilyn mai ALl2 sy'n gyfrifol hefyd am anghenion cymwys X o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Dyddiedig: 6 Rhagfyr 2023